



Cyfarfod

PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

Dyddiad ac Amser

10.00 y.b., DYDD LLUN, 10FED MEDI, 2018

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfeydd y Cyngor,
Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

Lowri Haf Evans

01286 679 878

lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd 3 Medi 2018)

PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

AELODAETH (15)

Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

Steve Collings
Dafydd Owen
Rheinallt Puw
Elfed Williams

Annwen Hughes
Edgar Wyn Owen
Peter Read
Annwen Daniels

Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

John Brynmor Hughes
Jason Wayne Parry

Eryl Jones-Williams
Angela Russell

Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd

Gareth Williams

Aelod Unigol (2)

Y Cynghorydd

Sion W. Jones
Sedd wag – aelod unigol

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

3. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION

4 - 6

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 11eg Mehefin 2018 fel rhai cywir

5. COFNODION IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

7 - 14

Cyflwyno, er gwybodaeth, cofnodion yr Is Bwyllgor Trwyddedu Cyffredinoll a gynhaliwyd ar y dyddiau canlynol:

- a) 22.05.2018
- b) 17.07.2018
- c) 24.07.2018

6. FFI OEDD ARFAETHEDIG TRWYDDEDAU TACSIS 2018/19

15 - 21

I ystyried adroddiad Pennaeth yr Amgylchedd

Eitem 4

PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL, 11.06.18

Yn bresennol: Y Cynghorwyr, Steve Collings, Annwen Daniels, Annwen Hughes, Eryl Jones-Williams, Dafydd Owen, Edgar Wyn Owen, Jason Wayne Parry, Peter Read, Angela Russell, Elfed W. Williams a Gareth Williams

Hefyd yn Bresennol: Gareth Jones (Uwch Reolwr Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Sïon Huws (Cyfreithiwr) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

1. ETHOL CADEIRYDD

Penderfynwyd ail ethol y Cynghorydd Peter Read yn Gadeirydd y Pwyllgor hwn am y cyfnod 2018 – 2019

2. ETHOL IS GADEIRYDD

Penderfynwyd ail ethol y Cynghorydd Elfed Williams yn Is Gadeirydd y Pwyllgor hwn am y cyfnod 2018 – 2019

3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr John Brynmor Hughes, Sïon Jones a Rheinallt Puw

Amlygwyd pryder ynglŷn â phresenoldeb Aelodau rhai o'r grwpiau gwleidyddol o ganlyniad i newid diweddar yn y balans gwleidyddol. Awgrymwyd cyfeirio'r sylwadau at y Swyddog Monitro.

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

5. MATERION BRYD

Dim i'w nodi

6. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 5 o Fawrth 2018 fel rhai cywir.

7. COFNODION IS BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, gofnodion cyfarfod o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd 13.03.2018

8. CAIS I NEWID DIWRNOD MARCHNAD PORTHMADOG

Amlygodd y Cyfreithiwr nad oedd hawl cyfansoddiadol gan y Pwyllgor Trwyddedu i wneud penderfyniad ar y mater ac mai rôl y Cabinet oedd hynny. Roedd yr Uwch Reolwr Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd o'r farn bod angen tynnu sylw'r Aelodau at y mater oherwydd eu cylch gorchwyl ac mai priodol fyddai cael cynnwys eu sylwadau mewn adroddiad i'r Cabinet.

Cyflwynwyd adroddiad gan Pennaeth yr Adran Amgylchedd mewn ymateb i gais gan un o gynrychiolwyr marchnad Porthmadog i newid diwrnod y farchnad o ddydd Gwener i ddydd Iau Eglurwyd bod ymgynghoriad wedi ei gynnal a bod canlyniadau'r ymgynghoriad hwnnw wedi ei cynnwys yn yr adroddiad ar ddull rhesymau o blaid ac yn erbyn y newid.

Tynnwyd sylw at e-byst a dderbyniwyd, ers cyhoeddi'r adroddiad, lle'r oedd yr Aelod Lleol yn datgan ei fod wedi trafod y sefyllfa gyda'r masnachwyr a bod y mwyafrif helaeth ohonynt yn erbyn newid diwrnod.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chyfanswm lleoliad ar gyfer masnachwyr ym Mhorthmadog, nodwyd bod y lleoliad yn gyfyng ac felly hyd at 12 lleoliad sydd yn gyffyrddus. Gyda sylw bod hyd at 18 o fasnachwyr wedi ymateb i'r ymgynghoriad, awgrymwyd bod masnachwyr nad oedd yn mynychu marchnad Porthmadog wedi datgan sylw.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â thal sefydlog dyddiol neu flynyddol amlygwyd bod masnachwyr yn arwyddo i gytundeb blynyddol (gyda rhai eithriadau posib). Ategwyd bod y gost yn amrywio o ran maint y stondin gyda masnachwyr achlysurol yn talu ychydig mwy oherwydd nad oeddynt yn fasnachwyr rheolaidd.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y pwyntiau canlynol gan Aelodau unigol:

- Siomedig mai un masnachwr oedd wedi gwneud cais
- Byddai symud i ddydd Iau yn cael effaith andwyol ar ddiwrnod marchnad Bermo
- Amlwg bod rhan fwyaf o'r masnachwyr eisiau cadw'r dyddiad fel y mae

Cynigiwyd ac eiliwyd i argymhell i'r Cabinet gadw dyddiad marchnad Porthmadog i ddydd Gwener.

Diolchodd yr Aelodau am y cyfle i gael rhoi eu sylwadau ar y mater.

9. FFIOEDD ARFAETHEDIG TRWYDDEDAU TACSIS 2018/19

Cyflwynwyd adroddiad gan Pennaeth yr Adran Amgylchedd yn gofyn i'r Pwyllgor gymeradwyo'r cynnig i godi ffioedd, yn ddarostyngedig i ymgynghoriad gyda'r diwydiant tacsï ac ymgynghoriad drwy rybudd cyhoeddus. Eglurwyd bod angen i'r cynnydd mewn ffioedd fod yn rhesymegol ac wedi ei osod ar lefel i adennill costau yn llawn neu yn rhannol.(yn unol ag Adran 53 a 70 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976).

Atgoffwyd yr Aelodau bod y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol wedi penderfynu, mewn cyfarfod a gynhaliwyd 24.6.13, bod yn rhaid i'r ffioedd gael eu hadolygu i adennill y costau yn llawn. Nodwyd yn yr adroddiad bod y ffioedd tacsï wedi cynyddu 25% yn 2013 a 19.78% a 10.78% yn 2015 er mwyn adennill y costau'n llawn. Ni chynyddwyd y ffioedd yn 2016/17 nac yn 2017/18.

Cyfeiriwyd at effaith newidiadau mewn deddfwriaethau diweddar ar brosesau trwyddedu sydd wedi creu cynnydd mewn gwaith prosesu trwyddedau. Cyfeiriwyd hefyd at yr asesiad ariannol a wnaed o'r ffioedd arfaethedig gan Adran y Trysorydd.

Amlinellwyd y costau cyfredol a'r costau arfaethedig oedd yn cynnwys cost gyrru llythyrau atgoffa adnewyddu a'r gwaith gweinyddol sydd ynghlwm wrth gynghori a chyfathrebu cyn ac yn ystod proses cyflwyno cais. Eglurwyd y byddai angen cynyddu'r ffioedd ar gyfartaledd o 28% er mwyn adennill y costau yn llawn.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y pwyntiau canlynol gan Aelodau unigol:

- Bod llawer o waith wedi ei wneud i gyfarch a gwarchod y diwydiant yn y gorffennol
- Angen ystyried sefydlu darpariaeth talu drwy gredyd uniongyrchol misol yn hytrach na un taliad blynyddol llawn
- Bod angen i'r diwydiant gyflwyno barn yn ffurfiol yn ystod yr ymgynghoriad
- Bod cais am drwydded tair blynedd yn rhatach yn y pendraw na thrwydded blwyddyn a bod yr arbediad yn sylweddol

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â thrafodaethau rhanbarthol a chenedlaethol ynglŷn â chysoni ffioedd, amlygwyd bod rhan fwyaf o awdurdodau wedi gweld cynnydd mewn costau ers cyflwyno trwydded 3 blynedd. Ategwyd bod yr asesiad ariannol wedi ei wneud gyda mewnbwn Adran y Trysorydd oedd yn herio yr angen i gynyddu cost trwydded 3 blynedd. Nodwyd, bod y penderfyniad wedi ei wneud ar sail nad oedd llawer mwy o wahaniaeth costau rhwng gweinyddu trwydded 3 blynedd a thrwydded blwyddyn yn dilyn y gwaith cychwynnol.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag uchafu materion gorfodaeth amlygwyd nad oedd modd defnyddio arian o'r costau i wneud hyn.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cynnig i godi'r ffioedd i'r lefel a argymhellir, yn ddarostyngedig i ymgynghoriad gyda'r diwydiant tacsï ac ymgynghoriad drwy rybudd cyhoeddus

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 11:00am

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 22.05.2018

Yn bresennol: Y Cynghorydd Elfed Williams (Cadeirydd), Y Cynghorwyr John Brynmor Hughes a Jason W Parry

Swyddogion: Geraint B Edwards (Cyfreithiwr), Cheryl Morgan (Swyddog Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau).

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwenan Roberts (Rheolwr Trwyddedu)

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwysu'r budd cyhoeddus o'i datgelu.

5. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr A

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nôd o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fgythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a cholffarnau perthnasol.

Gwahoddwyd darpar gyflogwr yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais a rhoi gwybodaeth am gefndir y troseddau. Nododd mai gweithio gyda sgaffald oedd ei waith ers dros ugain mlynedd ond bellach angen gwaith llai llafurus. Amlygodd bod yr ymgeisydd heb gael diwrnod o salwch o'i waith, yn ddyn gonest ac y byddai o fantais i'w gwmni petai'r drwydded yn cael ei chaniatáu oherwydd ei barodrwydd i weithio oriau anghymdeithasol.

Ategodd bod yr ymgeisydd wedi derbyn prawf meddygol a phrawf llygad. Gofynnodd i'r panel ystyried y cais yn ffafriol er y collfarnau hanesyddol.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â gweithredu profion cyffuriau ar hap ar yrwyr ei gwmni (yn dilyn digwyddiad diweddar), amlygodd nad oedd y teclyn ganddo i wneud y profion ac felly yn ceisio cyflogi yn gall ac yn ymddiried yn ei yrwyr i fod yn onest.

Ymneilltuodd yr ymgeisydd a'i ddarpar gyflogwr o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.

Wrth wneud eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- sylwadau llafar a gyflwynodd yr ymgeisydd yn ystod y gwrandawriad
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS oedd yn datgelu collfarnau

Rhodddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol.

Derbyniodd yr ymgeisydd gollfarn gan Lys Ieuencid Caernarfon (Gorffennaf 1975) ar 4 cyhuddiad o fwgleriaeth, yn groes i Ddeddf Lladrad 1968. Cafodd orchymyn arolygu o ddwy flynedd a gorchymyn i dalu iawndal. Derbyniodd yr ymgeisydd gollfarn gan Lys Ynadon Caernarfon (Rhagfyr 1984) ar gyhuddiad o fwgleriaeth, eto yn groes i Ddeddf Lladrad 1968 lle cafodd ddeddfryd i wasanaeth yn y gymuned a gorchymyn i dalu iawndal o £150.00. Derbyniodd gollfarn gan Lys Ynadon Caernarfon (Chwefror 1985) ar 2 gyhuddiad o ddwyn yn groes i Ddeddf Lladrad 1968 gyda dirwy o £50 a gorchymyn i dalu iawndal. Derbyniodd gollfarn gan Lys Ynadon Caernarfon (Gorffennaf 1985) ar 2 gyhuddiad yn ymwneud a chyffur dosbarth B canabis yn groes i Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 lle cafodd ddirwyo o £180 a gorchymyn fforffedu a dinistrio. Derbyniodd gollfarn gan Lys Ynadon Caernarfon (Ionawr 1986) ar 2 gyhuddiad o ddefnyddio trydan yn anonest yn groes i Ddeddf Dwyn 1968 ac un cyhuddiad o ddifrod troseddol yn groes i Ddeddf Difrod Troseddol 1971. Cafodd ddirwy o £25, talu iawndal a dilyn gorchymyn mechniaeth am flwyddyn.

Amlygwyd bod yr ymgeisydd wedi derbyn 3 pwynt cosb am oryrru (Tachwedd 2017).

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â cholffarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded.

Amlygwyd bod paragraff 4.5 o Bolisi'r Cyngor yn nodi bod Gorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu i'r Is-bwyllgor ystyried yr holl gollfarnau a gofnodwyd boed y rheiny wedi darfod o dan Ddeddf 1974 ai peidio.

Ystyriwyd paragraff 8.2 lle nodi'r bydd cais yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd gollfarn(au) o'r 3 blynedd diwethaf am drosedd o anonestrwydd (sydd yn cynnwys ceisio eiddo drwy dwyll). Ystyriwyd paragraff 9.2 a 9.3 lle nodi'r bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod os oes mwy nag un gollfarn yn erbyn yr ymgeisydd yn ymwneud a chyffuriau ac nad yw yn rhydd o gollfarn(au) am oleiaf 5 mlynedd.

Derbyniwyd bod collfarn Gorffennaf 1985 yn cynnwys trosedd yn ymwneud a chyffuriau, fodd bynnag ers i'r gollfarn ddigwydd 32 mlynedd yn ôl (dros 5 blynedd yn ôl), roedd yr Is-bwyllgor o'r farn nad oedd y drosedd yn sail i wrthod.

Ystyriwyd paragraff 13.2 lle nodi'r pan fydd gan ymgeisydd un gollfarn am fân drosedd gyrru ni fyddai hyn fel arfer yn arwain at wrthod cais neu atal trwydded.

Ystyriwyd paragraff 16.1 lle nodi'r bydd cais yn cael ei wrthod os bydd hanes o ail droseddu. Er bod tystiolaeth o ail droseddu (sydd yn dangos diffyg parch at les eraill neu at eiddo); yn yr achos yma, troseddau o anonestrwydd (1975 - 1986) , roedd yr Is-bwyllgor o'r farn nad oedd yn sail i wrthod y drwydded oherwydd roeddynt yn gollfarnau hanesyddol iawn (dros 10 mlwydd oed).

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00am a daeth i ben am 10:35am

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 17.07.2018

Yn bresennol: Y Cynghorydd Eryl Jones Williams (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Angela Russell ac Edgar Wyn Owen

Swyddogion: Geraint B Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Rhian Jones (Swyddog Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau).

1. YMDDIHEURIADAU

Dim i'w nodi

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.

5. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr A

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nôd o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a cholffarnau perthnasol.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais a rhoi gwybodaeth am gefndir y troseddau. Nododd ei fod wedi cael cynnig swydd gyda chwmni lleol ac ei fod wedi cwblhau prawf meddygol. Ategodd fod y collfarn diweddaraf wedi digwydd yn ystod cyfnod anodd o'i fywyd ond ei fod bellach mewn cyfnod sefydlog. Amlygodd ei fod wedi colli ei waith yn ddiweddar gyda chwmni lleol ac yn chwilio am waith. Nododd fod ganddo brofiad helaeth o

ddreifio gyda chwmniau yr oedd wedi gweithio iddynt Cyflwynodd eirida oedd yn cefnogi ei gais.

Ymneilltuodd yr ymgeisydd o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

PENDERFYNWYD nad oedd yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.

Wrth wneud eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- sylwadau llafar a gyflwynodd yr ymgeisydd yn ystod y gwrandawriad geirida yn cefnogi ei gais
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS oedd yn datgelu collfarnau.

Rhoddyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol.

Derbyniodd yr ymgeisydd gollfarn gan Lys Ynadon Gwyrfa (Tachwedd 1982) ar gyhuddiad o fwgleriaeth, yn groes i Ddeddf Lladrad 1968. Cafodd ddirwy a gorchymyn i dalu costau. Yng Ngorffennaf 1988, cafodd ei ganfod yn euog gan Lys Ynadon Caernarfon ar un cyhuddiad o ddwyn gan gyflogai, yn groes i Ddeddf Dwyn 1968. Ar gyfer y drosedd hon cafodd ddirwy a gorchymyn i dalu iawndal.

Derbyniodd yr ymgeisydd gollfarn gan Lys Ynadon Bangor (Hydref 1998) o yfed a gyrru, a defnyddio cerbyd heb yswiriant. Cafodd ei wahardd rhag gyrru am 18 mis, derbyn 6 phwynt cosb ar ei drwydded, dirwyon a chostau. Yn Ebrill 2009, cafodd ei wahardd rhag gyrru am 12 mis gan ddechrau ar 3 Ebrill 2009, a chyfanswm mewn dirwy a chostau.

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidwydd i berson sydd â cholffarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod y Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae paragraff 11.2 yn dweud y bydd cais fel rheol yn cael ei wrthod lle mae gan ymgeisydd fwy nag un gollfarn am yfed a gyrru, oni bai bod cyfnod o 10 mlynedd wedi pasio ers ailsefydlu'r drwydded yn dilyn y gollfarn ddiweddaraf.

Mae paragraff 16.1 yn dweud y bydd cais ymgeisydd fel rheol yn cael ei wrthod lle mae ganddo fwy nag un gollfarn am droseddau sydd yn dangos diffyg parch at eiddo, oni bai bod 10 mlynedd wedi pasio ers y gollfarn ddiweddaraf.

Daeth yr Is-bwyllgor i'r casgliad bod y gollfarn byrgleriaeth (1982) a dwyn (1988) yn dangos patrwm o aildroseddu yn ymwneud ag anonestrwydd, ac felly diffyg parch at eiddo. Fodd bynnag, gan fod y diweddaraf o'r collfarnau hyn wedi digwydd 30 mlynedd yn ôl, nid oedd y gwaharddiad o dan baragraff 16.1 o'r Polisi yn sefyll ac felly nid oedd yn sail i wrthod y cais.

Wrth ystyried y ddwy gollfarn am yfed a gyrru ystyriwyd paragraff 11.2 o'r Polisi, cyfrifwyd bod gwaharddiad y gollfarn ddiweddaraf wedi dod i ben Ebrill 2010, gyda'r drwydded wedi ailsefydlu ar 3 Ebrill 2010. Cadarnhaodd yr ymgeisydd nad oedd wedi cwblhau'r cwrs a fyddai wedi cwtsogi hyd y gwaharddiad. Ychydig dros 8 mlynedd sydd ers Ebrill 2010 ac

felly o dan yr amgylchiadau, nid oedd 10 mlynedd wedi pasio ers ailsefydlu'r drwydded ac felly roedd y gwaharddiad o dan baragraff 11.2 yn berthnasol i'r cais hwn.

Er mai canllaw yn unig yw'r polisi gyda'r Is-bwyllgor yn ymwybodol bod modd gwyro oddi wrtho os oes cyfiawnhad dros wneud hynny, wedi iddynt ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd roeddynt yn anghyfforddus gyda'r 2 gollfarn o yfed a gyrru. Er mai o drwch blewyn yr oedd dros y trothwy o yfed a gyrru ar y ddau achlysur nid oedd hyn yn resymau i'w hystyried. Roedd yr Is-bwyllgor hefyd yn anghyfforddus gyda'r syniad o roi trwydded, yn groes i bolisi, i rywun gyda 2 gollfarn am yfed a gyrru lle mae dros 18 mis i fynd hyd ddeng mlwyddiant y gwaharddiad diwethaf.

Er bod gan yr Is-bwyllgor gydymdeimlad gyda'r ymgeisydd, roedd yr aelodau o'r farn bod y cais hwn wedi cael ei gyflwyno ychydig yn rhy fuan. Byddai'r tebygolrwydd o gael trwydded wedi bod yn uwch petaech wedi gohirio eich cais o tua 6-9 mis.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd a bod hawl ganddo i gyflwyno apêl yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor o fewn cyfnod o 21 diwrnod o dderbyn y llythyr.

Dechreuodd y cyfarfod am 3:20pm a daeth i ben am 4 :00pm

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 24.07.2018

Yn bresennol: Y Cynghorydd Elfed Williams (Cadeirydd), Y Cynghorwyr John Brynmor Hughes a Dafydd Owen

Swyddogion: Geraint B Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Rhian Jones (Swyddog Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau).

1. YMDDIHEURIADAU

Dim i'w nodi

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.

5. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr A

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nôd o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fgythyad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a cholffarnau perthnasol.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais a rhoi gwybodaeth am gefndir y troseddau. Nododd nad oedd bellach yn berchen dryll na thrwydded dryll. Amlygodd bod cwmni lleol wedi cynnig swydd iddo petai ei gais yn llwyddiannus.

Ymneilltuodd yr ymgeisydd o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.

Wrth wneud eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- sylwadau llafar a gyflwynodd yr ymgeisydd yn ystod y gwrandawriad
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS oedd yn datgelu collfarnau.

Rhoddyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol.

Derbyniodd yr ymgeisydd gollfarn gan Lys Ynadon Caernarfon (Ebrill 1999) ar ddwy drosedd yn ymwneud a dryll yn groes i Ddeddf Drylliau Tan 1968. Am y troseddau hyn cafodd ei ddedfrydu i gyfnod mewn sefydliad troseddwr ifanc.

Derbyniodd yr ymgeisydd gollfarn gan Lys Ynadon Manceinion (Medi 2001) am ddifrod troseddol yn groes i adran 1 o'r Ddeddf Difrod Troseddol 1971. Cafodd ddirwy o £100.00 a gorchymyn i dalu costau ac iawndal.

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â cholffarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod y Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae paragraff 6.4 o'r Polisi yn nodi y bydd cais fel rheol yn cael ei wrthod os oes collfarn sydd yn llai na 10 mlynedd am drosedd yn ymwneud 'a dryll yn ei feddiant'

Mae paragraff 6.5 yn dweud y bydd cais am drwydded fel rheol yn cael ei wrthod lle mae collfarn lai na 3 mlynedd am ddirfod troseddol.

Daeth yr Is-bwyllgor i'r casgliad bod y gollfarn yn ymwneud a meddiant dryll wedi digwydd yn 1998, bron i 20 mlynedd yn ôl. Ystyriwyd nad oedd y gwaharddiad o dan baragraff 6.4 yn berthnasol nac yn sail i wrthod y drwydded.

Wrth ystyried y gollfarn oedd yn ymwneud a throsedd difrifol a oedd wedi digwydd yn 2001 (dros 16 mlynedd yn ôl), nid oedd y gwaharddiad o dan baragraff 6.5 yn berthnasol ac felly roedd yr Is bwyllgor yn fodlon na ddylai'r gollfarn hanesyddol yma fod yn sail i wrthod y drwydded.

Roedd yr Is-bwyllgor hefyd yn diolch i'r ymgeisydd am fod yn agored a gonest yn ei eglurhad i amgylchiadau'r collfarnau.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd a bod hawl ganddo i gyflwyno apêl yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor o fewn cyfnod o 21 diwrnod o dderbyn y llythyr.

Dechreuodd y cyfarfod am 10 :15am a daeth i ben am 11:00am

Eitem 6

PWYLLGOR	PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL
DYDDIAD:	10 MEDI 2018
TEITL:	FFIOEDD ARFAETHEDIG TRWYDDEDAU TACSIS 2018/19
PWRPAS:	CYMERADWYO FFFIOEDD ARFAETHEDIG AR GYFER EU GWEITHREDU O 1AF O HYDREF 2018
AWDUR:	PENNAETH YR ADRAN AMGYLCHEDD

1.0 GWYBODAETH GEFNDIROL

- 1.1 Yng nghyfarfod y Pwyllgor hwn ar y 11eg o Fehefin 2018 hon fe gofiwch i argymhelliad i godi ffioedd trwyddedau tacsis gael eu codi er mwyn sicrhau fod costau sydd ynghlwm a gweinyddiaeth y trwyddedau hyn yn cael eu hadennill, yn llawn. Gweler y tabl yn atodiad 1 i'r adroddiad hwn am fanylion llawn y ffioedd arfaethedig.
- 1.2 Mae'n ofynnol i'r Cyngor adolygu ei ffioedd mewn perthynas â Thrwyddedu tacsis (h.y. trwyddedau cerbydau hacni, cerbydau hurio preifat, gweithredwyr hurio preifat a gyrwyr) yn rheolaidd. Penderfynodd y Pwyllgor hwn ar 24 Mehefin 2013 y byddai ffioedd tacsis yn cael eu hadolygu yn flynyddol.
- 1.3 Mae Adran 53 a 70 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn darparu y caiff y ffioedd eu codi ar lefel ddigonol i dalu costau rhesymol; ac er mwyn adennill y costau yn llawn rhaid cynyddu'r ffioedd o gyfartaledd o 28%

2. YMGYNGHORI Â'R DIWYDIANT

- 2.1 Roedd penderfyniad y Pwyllgor hwn ym mis Mehefin i gymeradwyo cynyddu ffioedd trwyddedau tacsis yn ddarostyngedig i ymgynghoriad cyhoeddus llawn yn unol â'r gofynion statudol.
- 2.2 Mae'r diwydiant wedi derbyn llythyr yn amlinellu'r newidiadau yn y ffioedd, a'r rhesymau dros godi'r ffioedd; er mwyn caniatáu digon o gyfle i amlygu unrhyw bryderon am y cynnydd mewn ffioedd (gweler atodiad 2) . Yn unol ag Adran 70 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 mae rhybudd cyhoeddus o newidiadau arfaethedig i ffioedd wedi ymddangos yn y wasg leol ar Yr 2il o Awst. Mae amserlen benodol wedi ei dilyn ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus; ac ni fydd unrhyw newidiadau arfaethedig yn dod i rym hyd nes y bydd unrhyw ymateb i'r ymgynghoriad ffurfiol wedi ei ystyried y gan y Pwyllgor hwn.
- 2.3 Mae'r rhybudd a roddwyd yn y wasg (gweler atodiad 3) yn cynnwys y dyddiad pan fydd y ffioedd yn dod yn weithredol, dim cynt na 28 diwrnod ar ôl dyddiad y rhybudd ar yr amod na cheir gwrthwynebiadau i'r ffioedd. Ni fydd ffioedd newydd yn dod yn weithredol tan y 1af o Hydref 2018; os ceir penderfyniad terfynol i gymeradwyo gan y Pwyllgor hwn.
- 2.4 Roedd y 28 diwrnod yr ymgynghoriad yn dod i ben ar y 30 o Awst; ac fe ellir cadarnhau nad oes unrhyw wrthwynebiad neu sylwadau ysgrifenedig wedi dod i law. Mae un cwmni lleol wedi crybwyll mewn e-bost y byddai yn syniad adolygu'r prisiau mae'r

diwydiant yn gallu ei godi ar gwsmeriaid. Mae hyn yn bwynt ddigon teg; gan nad oes cais wedi bod i adolygu'r hyn mae'r diwydiant yn gallu codi ar gwsmeriaid ers rhai blynyddoedd. Mae proses a threfn statudol ar gyfer codi prisiau; ac mae angen cais ysgrifenedig gan gynrychiolydd o'r diwydiant er mwyn cychwyn y broses yn ffurfiol.

ARGYMHELLIAD

Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo yn derfynol y cynnig i godi'r ffioedd yn weithredol o'r 1af o Hydref 2018, i'r lefel a argymhellir; yn unol â'r drefn a amlinellwyd yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus.

**FFIOEDD SY'N DESTUN I YMGYNGHORIAD YN UNOL AG ADRAN 70 O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976.
FEES THAT ARE SUBJECT TO PUBLIC CONSULTATION IN ACCORDANCE WITH SECTION 70 OF THE LOCAL GOVERNMENT (MISCELLANEOUS PROVISIONS) ACT 1976.**

FFIOEDD TRWYDDEDU TACSI	TAXI LICENSING FEES	FFI/FEES: OCTOBER 2015	CYNNIG/PROPOSAL: 2018/2019
Trwydded Cerbyd Hurio	Hackney Carriage Vehicle Licence		
FFIOEDD SYDD DDIM YN DESTYN I YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS			
Ffi Trwydded	Licence Fee	£152.60	£180.84
Trwydded Cerbyd Hurio preifat	Private Hire Vehicle Licence		
Ffi Trwydded	Licence Fee	£152.60	£180.84
Ffi trosglwyddo cerbyd Hacni i berchennog newydd	Transfer of Hackney licence to new proprietor	£74.60	£75.00
Ffi trosglwyddo cerbyd HP i berchennog newydd	Transfer of PH licence to new proprietor	£74.60	£75.00
Trwydded cerbyd HP – Cludiant Ysgolion	Private Hire Vehicle Licence – School Transport	£89.60	£171.00
Trwydded Gweithredwr Hurio Preifat (Gan gynnwys Gweithredwr Hurio Preifat amodol)	Private Hire Operators Licence (Including School Transport Operators)	1 blwyddyn/ year: £180.80 3 mlynedd years: £238.70 5 mlynedd/years: £297.80	1 blwyddyn/ year: £236.00 3 mlynedd years: £275.00 5 mlynedd/years: £329.00

FEES THAT ARE NOT SUBJECT TO PUBLIC CONSULTATION

Trwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni a Hurio Preifat Ffi Trwydded (cynnwys bathodyn)	Hackney Carriage and Private Hire Drivers Licence Licence Fee (incl ID badge fee)	1 blwyddyn/ year: £136.00 3 mlynedd years: £174.00	1 blwyddyn/ year: £233.00 3 mlynedd years: £270.00
Archwiliad Swyddfa Cofnodion Troseddol	Disclosure & Barring Service	Ffi Statudol/Statutory Fee: £44.00 Ffi Weinyddol/Admin Fee: £9.50	Ffi Statudol/Statutory Fee: £44.00 Ffi Weinyddol/Admin Fee: £9.50
Trwydded Hacni Ceffyl a Char	Horse Drawn Hackney Carriage Licence	£152.60	£152.60
Plât Trwydded Cerbyd (Par)	Vehicle Licence Plate (Pair)	£34.80	£34.80
Braced Par Trwydded Cerbyd (Par)	Vehicle Licence Plate Bracket (Pair)	£34.80	£34.80
Plât allanol cerbyd (Yr un)	External Vehicle Plate (Each)	£18.25	£18.25
Plât Mewnol Cerbyd	Internal Vehicle Plate	£16.60	£16.60
Llawes Plât Mewnol	Internal Plate Sleeve	£5.00	£5.00
Sticer Drws Cerbyd Hurio Preifat (Yr un)	Private Hire External Door Sticker (Each)	£18.25	£18.25
Bathodyn Gyrrwr	Driver ID Badge	£14.90	£14.90
Ail-eistedd Prawf Gwybodaeth Gyrrwr	Driver Knowledge Test Re-sit	£9.50	£9.50

Adran Amgylchedd Environment Department

Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd Planning and Public Protection Service Uwch Reolwr/Senior Manager – Gareth Jones

Gofynnwch am/Ask for: Gwenan M Roberts

☎(01766) 771000

✉ Trwyddedu@gwynedd.llyw.cymru

Ein Cyf / Our Ref: GMW

Eich Cyf / Your Ref:

Annwyl Syr/Madam

FFIOEDD TRWYDDEDAU GYRRWYR, CHERBYDAU HACNI, HURIO PREIFAT A GWEITHREDWYR 2018/19

Hoffwn eich hysbysu bod y Cyngor yn bwriadu diwygio ffioedd mewn perthynas â thrwyddedau tacsï o'r 1af o Hydref 2018.

Mae adran 53 a 70 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn darparu y caiff y ffioedd eu codi ar lefel ddigonol i adennill costau rhesymol.

Penderfynodd Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol y Cyngor ar y 24 o Fehefin 2013 y byddai ffioedd tacsï yn cael eu hadolygu yn flynyddol ac yn cael eu gosod ar lefel ddigonol i adennill costau rhesymol.

Mae'r Cyngor wedi cynnal adolygiad blynyddol o'r costau ac wedi penderfynu fod lefel y ffioedd presennol yn annigonol i adennill y gost o ddarparu'r gwasanaeth Trwyddedu tacsï ar gyfer 2018/19.

Ni chynyddwyd y ffioedd o gwbl yn 2016/17 nac ychwaith yn 2017/18. Er mwyn adennill y costau; bwriedir cynyddu'r ffioedd o tua 28% ar gyfartaledd. o 1 Hydref 2018

Gweler atodiad i'r llythyr hwn am y rhestr lawn o ffioedd cyfredol a'r ffioedd arfaethedig. Noder, fod diwygio rhai ffioedd yn destun ymgynghoriad statudol. Fe fydd yr ymgynghoriad statudol yn cychwyn drwy gyhoeddi Rhybudd Cyhoeddus yn y papurau lleol ar **2 Awst 2018**

Bydd copi o'r rhybudd ar gael iw archwilio am ddim yn Siop Gwynedd Caernarfon, Siop Gwynedd Pwllheli, a Siop Gwynedd Dolgellau am gyfnod o 28 diwrnod o'r 2il o Awst 2018

Dear Sir/Madam

LICENCE FEES FOR HACKNEY AND PRIVATE HIRE DRIVER, VEHICLE AND OPERATORS 2018/19

I wish to inform you that the Council proposes to amend the fees in respect of taxi licensing from the 1st of October 2018.

Sections 53 and 70 of the Local Government (Miscellaneous Provisions) Act 1976 provide that fees may be charged at a level sufficient to recover reasonable costs. The Council's General Licensing Committee decided on 24 of June 2013 that Taxi licensing fees would be reviewed annually and be set at a level sufficient to recover the reasonable costs.

The Council has undertaken its annual review of costs and determined that the current fee levels are insufficient to recover the costs of providing the taxi licensing services for 2018/19.

The fees were not increased at all during 2016/17 or 2017/18. So as to achieve cost recovery; it is proposed that the fees will increase by approximately 28% on average. from 1 October 2018.

The full list of the current and proposed fees is attached to this letter. Please note, the varying of certain fees is subject to statutory consultation. The statutory consultation will begin with the publication of a Public Notice in local newspapers on **2 August 2018**.

A copy of the notice will be available for inspection free of charge at Shop Gwynedd Caernarfon, Shop Gwynedd Pwllheli and Shop Gwynedd Dolgellau for a period of 28 days

Swyddfa Ardal Dwyfor
Pwllheli
Gwynedd. LL53 5AA
01766 771 000
www.gwynedd.llyw.cymru

ymlaen

Rhaid gwneud unrhyw sylwadau ar y diwygiadau arfaethedig yn ysgrifenedig ; a'i anfon o fewn 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r rhybudd i'r cyferiaid isod neu drwy e bost at Trwyddedu@Gwynedd.llyw.cymru

starting on the 2nd of August 2018.

Any comments on the proposed amendments must be made in writing, and sent within 28 days of the publication date of the notice to the address shown below or by email to Licensing@Gwynedd.llyw.cymru

Yn gywir/Yours faithfully



Gwenan Mai Roberts
Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd (Rheolaeth Llygredd a Thrwyddedu)
Public Protection Manager (Pollution Control and Licensing)

CYNGOR GWYNEDD**GWYNEDD COUNCIL****DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 FFOIEDD
DIWYGIEDIG AR GYFER TRWYDDEDU CERBYDAU HACNI, CHERBYDAU HURIO
PREIFAT A GWEITHREDWR HURIO PREIFAT 2018/2019****LOCAL GOVERNMENT (MISCELLANEOUS PROVISIONS) ACT 1976 REVISED
LICENCE FEES FOR HACKNEY CARRIAGE VEHICLES PRIVATE HIRE VEHICLES
AND PRIVATE HIRE OPERATOR'S 2018/2019**

Hysbysir drwy hyn, yn unol ag adran 70, Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, bod Cyngor Gwynedd yn bwriadu diwygio ffioedd trwyddedau cerbydau hacni, cerbydau hurio preifat a gweithredwyr hurio preifat fel a ganlyn:

Notice is hereby given, pursuant to section 70, Local Government (Miscellaneous Provisions) Act 1976, that Gwynedd Council proposes to amend the fees for Hackney Carriage vehicle, Private Hire vehicle and Private Hire Operator licences as follow:

	Ffi	Hyd
Trwydded Cerbyd (Hacni a Hurio Preifat)	£180.84	1 Blwyddyn
Trwydded Gweithredwr Hurio Preifat	£236.00 £275.00 £329.00	1 Blwyddyn 3 Mlynedd 5 Mlynedd

	Fee	Duration
Vehicle Licence (Hackney Carriage & Private Hire)	£180.84	1 Year
Private Hire Operator's Licence	£236.00 £275.00 £329.00	1 Year 3 Years 5 Years

Gellir archwilio copi o'r hysbysiad am ddim am gyfnod o 28 niwrnod wedi cyhoeddi'r hysbysiad hwn yn - Siop Gwynedd, Swyddfeydd y Cyngor, Stryd Y Jêl, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH

A copy of this notice may be inspected free of charge, for a period of 28 days from the publication of this notice at - Siop Gwynedd, Council Offices, Shirehall Street, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH

Siop Gwynedd, Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd Y Cob, Pwllheli, Gwynedd LL53 5AA
Siop Gwynedd, Swyddfeydd y Cyngor, Cae Penarlag, Dolgellau, Gwynedd LL40 2YB
Gellir cyflwyno unrhyw sylwadau i'r digwyddiadau a nodir uchod yn ysgrifenedig a'i anfon o fewn y 28 niwrnod o ddyddiad y rhybudd hwn at Trwyddedu@gwynedd.llyw.cymru neu **Adran Amgylchedd, Stryd Y Jêl, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH.**

Siop Gwynedd, Council Offices, Ffordd Y Cob, Pwllheli, Gwynedd LL53 5AA
Siop Gwynedd, Council Offices, Cae Penarlag, Dolgellau, Gwynedd LL40 2YB
Any comments on the amendments specified above can be made in writing and sent within 28 days of this notice to Licensing@gwynedd.llyw.cymru or **Environment Department, Shirehall Street, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH.**

Yn ddarostyngedig i ystyriaeth o unrhyw sylwadau a dderbynnir o fewn 28 o ddyddiad y rhybudd hwn, bwriedir gweithredu ar y newidiadau uchod ar y 1 Hydref 2018.

Subject to consideration of any comments received within 28 days of this notice, it is proposed that the above changes will be implemented on 1 October 2018.

Dyddiedig: 2/8/2018 Dafydd W Williams, Pennaeth Gwasanaethau Amgylchedd, Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH

Dated: 2/8/2018 Dafydd W Williams, Head of Environment Services, Gwynedd Council, Shirehall Street, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH.